



TRACIWR TAI YN GYNTAF CYMRU

CHWEFROR 2018 - MAWRTH 2023

Mae Tai yn Gyntaf yn fodel a brofwyd yn rhyngwladol, a'i nod yw darparu cartref sefydlog a chymorth dwys, cyn gynted ag y bo modd, i bobl sydd wedi cael sawl profiad o ddigartrefedd, trawma, problemau iechyd meddwl, problemau gyda defnyddio sylweddau, a neu ymgysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Mae hyn yn aml yn cynnwys pobl sydd wedi cael eu gadael i lawr gan ddulliau a systemau traddodiadol.

Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chanllaw polisi cyntaf ynghylch Tai yn Gyntaf, a darparodd gyllid i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r model yng Nghymru. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gwelwyd twf sylweddol yn y nifer o brosiectau Tai yn Gyntaf yng Nghymru, ac mae [Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd](#) Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i gefnogi datblygiad pellach.

Er mwyn gallu mesur graddfa ac effaith y prosiectau hyn, dechreuodd Cymorth Cymru gasglu a chyhoeddi data ar y nifer o bobl sy'n derbyn cymorth, y nifer o denantiaethau a ddechreuwyd, cynnal tenantiaethau, a'r nifer o bobl sydd mewn llety dros dro yn aros i gael eu paru gyda thenantiaeth Tai yn Gyntaf. Cyhoeddir y data ar sail Cymru gyfan, oherwydd maint bychan y sampl yn achos rhai prosiectau, ac mae'n cynnwys prosiectau Tai yn Gyntaf generig, ond nid y prosiectau Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc na'r prosiectau Tai yn Gyntaf i Fenywod.

Cysylltodd Cymorth Cymru â Phrosiectau Tai yn Gyntaf – a adnabuwyd trwy eu hymgysylltiad â'r Rhwydwaith Tai yn Gyntaf – a gofynnwyd iddynt gyfrannu data ar gyfer eu prosiect. Gofynnwyd hefyd iddynt gadarnhau bod eu prosiectau'n cael eu cyflenwi'n unol ag egwyddorion Tai yn Gyntaf. Er bod yr ystadegau hyn wedi mynd trwy proses o graffu, a'n bod wedi gofyn am eglurhad pan fo'r data'n codi cwestiynau, mae cywirdeb yr ystadegau hyn yn dibynnu'n bennaf ar gywirdeb y data a gasglwyd gan y prosiectau Tai yn Gyntaf. Dylem hefyd nodi, lle bo cleientiaid tymor-hir mewn sefyllfa lle nad oes arnynt angen cymorth cyson, mae'r prosiect wedi defnyddio'u gwybodaeth, eu profiad a'u harbenigedd i ddod i'r casgliad eu bod yn debygol o gynnal eu tenantiaeth.

Dylid anfon unrhyw gwestiynau i housingfirst@cymorthcymru.org.uk



PROSIECTAU TAI YN GYNTAF YNG NGHYMRU

CHWEFROR 2018 - MAWRTH 2023

17

Nifer y prosiectau Tai yn Gyntaf sy'n gweithredu dros 17 o awdurdodau lleol

792

Nifer y bobl a gefnogwyd gan brosiectau Tai yn Gyntaf ers mis Chwefror 2018

380

Nifer y bobl sydd wedi dechrau tenantiaethau Tai yn Gyntaf ers mis Chwefror 2018

335

Nifer y bobl oedd yn cynnal eu tenantiaethau Tai yn Gyntaf ar 31 Mawrth 2023

92%


Y gyfradd cynnal tenantiaeth ar draws holl brosiectau Tai yn Gyntaf yng Nghymru

78

Nifer y bobl mewn llety dros dro oedd yn aros am denantiaeth TyG ar 31 Mawrth 2023

3

Nifer y prosiectau sydd wedi ennill Achrediad Tai yn Gyntaf Cymru



Diolch yn fawr i'r holl sefydliadau sy'n cyflenwi Tai yn Gyntaf yng Nghymru am ein helpu ni i gasglu'r ystadegau hyn:

- **Tai yn Gyntaf Ynys Môn:** Dan arweiniad y Wallich
- **Tai yn Gyntaf Blaenau Gwent:** Dan arweiniad Pobl
- **Tai yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr:** Led by Adferiad
- **Tai yn Gyntaf Caerffili:** Dan arweiniad Pobl
- **Tai yn Gyntaf Caerdydd:** Dan arweiniad Byddin yr Iachawdwriaeth
- **Tai yn Gyntaf Caerdydd:** Dan arweiniad Cyngor Caerdydd
- **Tai yn Gyntaf Caerdydd (i rai sy'n gadael carchar):** Dan arweiniad Cyngor Caerdydd
- **Tai yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin:** Dan arweiniad Nacro a Stori
- **Tai yn Gyntaf Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint:** Dan arweiniad Cyngor Sir Ddinbych
- **Tai yn Gyntaf Gwynedd:** Dan arweiniad Shelter Cymru
- **Tai yn Gyntaf Gwynedd Merthyr:** Dan arweiniad Byddin yr Iachawdwriaeth
- **Tai yn Gyntaf Sir Fynwy:** Dan arweiniad Pobl
- **Tai yn Gyntaf Casnewydd:** Dan arweiniad Pobl
- **Tai yn Gyntaf Powys:** Dan arweiniad Cyngor Powys
- **Tai yn Gyntaf RCT:** Dan arweiniad Pobl
- **Tai yn Gyntaf Abertawe:** Dan arweiniad y Wallich
- **Tai yn Gyntaf Torfaen:** Dan arweiniad Pobl

3

ACHREDIAD TAI YN GYNTAF CYMRU

Mae tri phrosiect wedi ennill achrediad Tai yn Gyntaf Cymru:

- Tai yn Gyntaf Conwy / Sir Ddinbych: Dan arweiniad Cyngor Sir Ddinbych
- Tai yn Gyntaf Caerdydd: Dan arweiniad Byddin yr Iachawdwriaeth
- Tai yn Gyntaf Ynys Môn: Dan arweiniad y Wallich

POBL SY’N DERBYN CYMORTH GAN BROSIECTAU TAI YN GYNTAF YNG NGHYMRU

CHWEFROR 2018 - MAWRTH 2023




Mae cyfanswm o 791 o bobl wedi derbyn cymorth gan brosiectau Tai yn Gyntaf yng Nghymru rhwng 1 Chwefror 2018 a 31 Mawrth 2023.

Mae hyn yn cynnwys pobl sy’n ymgysylltu â Tai yn Gyntaf drwy allgymorth dyfal a chymorth cyn-denantiaeth, yn ogystal â phobl sy’n derbyn cymorth mewn tenantiaeth Tai yn Gyntaf.

Y nifer cronnol o bobl a dderbyniodd gymorth gan Tai yn Gyntaf yng Nghymru

Mae’r siart isod yn dangos y nifer cronnol o bobl sydd wedi derbyn cymorth gan brosiectau Tai yn Gyntaf yng Nghymru ers mis Chwefror 2018.

Mae hyn yn cynnwys pobl sy’n ymgysylltu â Tai yn Gyntaf drwy allgymorth dyfal a chymorth cyn-denantiaeth, yn ogystal â phobl sy’n derbyn cymorth mewn tenantiaeth Tai yn Gyntaf.




Y nifer o bobl a gefnogir gan brosiectau Tai yn Gyntaf: yn ôl rhywedd

Mae’r ystadegau isod yn dangos y nifer o bobl sydd wedi derbyn cymorth gan brosiectau Tai yn Gyntaf yng Nghymru ers mis Chwefror 2018, wedi eu rhannu fesul rhywedd.

Dynion yw’r rhan fwyaf o bobl sy’n derbyn cymorth, ond mae’r gyfran o fenywod sy’n derbyn cymorth wedi cynyddu o 16.5% ym mis Medi 2021.

Dynion	616	78%
Merched	173	22%
Arall / anhysbys	3	0.4%
CYFANSWM	792	



TENANTIAETHAU TAI YN GYNTAF YNG NGHYMRU

CHWEFROR 2018 - MAWRTH 2023




Roedd cyfanswm o 380 o bobl wedi dechrau tenantiaeth Tai yn Gyntaf yng Nghymru rhwng 1 Chwefror 2018 a 31 Mawrth 2023.

Mae'r ffigur yn cynnwys tenantiaethau gyda chymdeithasau tai, awdurdodau lleol a'r sector rhentu preifat.

Y nifer cronnol o denantiaethau Tai yn Gyntaf a ddechreuwyd yng Nghymru

Mae'r siart isod yn dangos y nifer o bobl sydd wedi dechrau tenantiaethau Tai yn Gyntaf ers mis Chwefror 2018.

Mae nifer y tenantiaethau wedi cynyddu o dros 40 ym mhob cyfnod o chwe mis ers i ni ddechrau casglu'r data.




Tenantiaethau Tai yn Gyntaf a ddechreuwyd yng Nghymru: yn ôl y math o landlord

Mae'r ystadegau isod yn dangos y nifer o denantiaethau Tai yn Gyntaf a ddechreuwyd yng Nghymru ers mis Chwefror 2018, wedi eu rhannu yn ôl y math o landlord.

Mae cyfran y tenantiaethau a ddarperir gan gymdeithasau tai wedi cynyddu o 37% ym mis Chwefror 2018 i 44% ym mis Mawrth 2023.

Cymdeithas Tai	166	44%
Awdurdod Lleol	89	24%
Y Sector Rhentu Preifat	114	30%
Arall	9	2%
CYFANSWM	378	



GRADDDFA CYNNAL TENANTIAETH TAI YN GYNTAF

CHWEFROR 2018 - MAWRTH 2023




Roedd 92% o'r tenantiaethau Tai yn Gyntaf yn cael eu cynnal ar 31 Mawrth 2023.

Y raddfa cynnal tenantiaeth yw'r ganran o denantiaethau a gynhelir allan o'r cyfanswm o denantiaethau a ddechreuwyd, ac eithrio'r nifer o denantiaethau a ddaeth i ben oherwydd marwolaeth y person dan sylw.

Mae'r ganran ar gyfer prosiectau unigol lle bo mwy na deg person wedi cael eu cartrefu yn amrywio o 71% i 100%.

Cyfradd cynnal tenantiaeth ar gyfer prosiectau Tai yn Gyntaf yng Nghymru

Mae'r siart isod yn dangos cyfradd cynnal tenantiaeth Tai yn Gyntaf yng Nghymru ers mis Chwefror 2018. Lle bo cleientiaid tymor-hir mewn sefyllfa lle nad oes arnynt angen cymorth cyson, mae'r prosiect wedi defnyddio'u gwybodaeth, eu profiad a'u harbenigedd i ddod i'r casgliad eu bod yn debygol o gynnal eu tenantiaeth.



Rhesymau dros ddod â thenantiaethau Tai yn Gyntaf i ben ers mis Chwefror 2018

Daeth 45 o denantiaethau Tai yn Gyntaf i ben rhwng 1 Chwefror 2018 a 31 Mawrth 2023. Bydd rhai o'r bobl hyn yn parhau i dderbyn cefnogaeth gan brosiectau Tai yn Gyntaf, neu'n cael eu cefnogi gan wasanaethau amgen o fewn lleoliadau iechyd a gofal.

Rheswm dros ddod â thenantiaeth Tai yn Gyntaf i ben		
Marwolaeth	14	31%
Carchar	10	22%
Symud i leoliad iechyd / gofal cymdeithasol neu sefydliad gofal	7	16%
Y cleient yn dewis gadael /cefnu ar y denantiaeth	5	11%
Wedi trefnu i symud i denantiaeth nad yw'n rhan o Tai yn Gyntaf	4	9%
Troi allan	2	4%
Arall / Anhysbys	3	7%
CYFANSWM	45	

POBL YN AROS AM DENANTIAETHAU TAI YN GYNTAF

CHWEFROR 2018 - MAWRTH 2023

78

Ar 31 Mawrth 2023 roedd 78 o bobl mewn llety dros dro yn aros i gael eu paru â thenantiaeth Tai yn Gyntaf.

Mae hyn yn cymharu â 74 o bobl ar 30 Medi 2021, 92 ar 31 Mawrth 2022 ac 87 ar 30 Medi 2022.

